# Ein partneriaethau

Rydym yn ymdrechu i feithrin partneriaethau strategol a chydweithredol yn y DU a thramor.

Rydym yn ymdrechu i feithrin partneriaethau strategol a chydweithredol yn y DU a thramor.

Caiff ein Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ei gynnal mewn partneriaeth â thua 330 o awdurdodau lleol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Maent yn cynnal arolygiadau hylendid mewn tua 600,000 o safleoedd – gan hybu dewis defnyddwyr a gwella safonau hylendid mewn perthynas â bwyd.

Mae partneriaethau gwyddonol ar draws y llywodraeth a chyda'r byd academaidd yn hanfodol er mwyn bodloni ein hanghenion gwyddoniaeth a thystiolaeth. Rydym yn arwain ar y rhaglen Cadw Gwyliadwriaeth ar Bathogenau mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Amgylchedd (PATH-SAFE), sef rhaglen drawslywodraethol gwerth £24 miliwn, a ariennir gan Drysorlys EF. Ei nod yw archwilio dulliau newydd o ganfod ac olrhain pathogenau a gludir gan fwyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd yn well drwy'r system bwyd-amaeth gyfan.

Mae partneriaethau gweithio cryf hefyd yn ein helpu i ddeall a chyrraedd y defnyddwyr yr ydym yn ceisio eu diogelu. Er enghraifft, mae ein partneriaeth â llwyfannau ar-lein fel Deliveroo, Just Eat ac Uber Eats wedi ein helpu i gynyddu tryloywder gwybodaeth am hylendid mewn busnesau bwyd, gan alluogi defnyddwyr i ystyried diogelwch bwyd wrth archebu bwyd ar-lein. Mae cydweithio gydag elusennau fel Allergy UK ac Anaffylacsis UK yn ein helpu i ddeall a chefnogi pobl sy'n byw gyda gorsensitifrwydd i fwyd yn well.

Rydym yn gweithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth ar brosiectau a all gefnogi diogelwch, dilysrwydd, iechyd neu gynaliadwyedd bwyd. Er enghraifft, yn Lloegr rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Adran Addysg, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac awdurdodau lleol ar gynllun peilot a allai helpu i asesu a gwella'r lefel cydymffurfio â Safonau Bwyd Ysgol. Yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi cynhyrchu canllaw ar werthu bwyd iachach a mwy cynaliadwy, ac rydym wedi cyflwyno safonau maeth ar gyfer byrbrydau a diodydd.

Rydym yn rhan o fforymau rhyngwladol i ddiogelu bwyd sy'n dod i mewn i'r DU ac i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau rhyngwladol ym maesdiogelwch bwyd. Darllenwch am ein gwaith gyda phartneriaid i ddylanwadu ar safonau diogelwch bwyd rhyngwladol.